Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl:	**Praesept a Threth y Cyngor 2023/24**
Cyfarfod:	**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 30 Ionawr 2023**
Awdur:	**Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru a gwneud argymhellion ynghylch praesept a threth y cyngor ar gyfer 2023/24.

2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £100,244,287.

- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor o 5.14% - mae hynny'n gyfystyr â £333.09 y flwyddyn, sef cynnydd o £16.29 y flwyddyn neu 31c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.
- Nodi bod y Sylfaen Drethu wedi cynyddu o 1.58%.
- Dyma gynnydd o 6.80% o gymharu â phraesept 2022/23.

2.2 Nodi bod Grant gwaelodlin y Llywodraeth wedi cynyddu o 0.35% / £0.3m.

2.3 Nodi mai cyfanswm pwysau chwyddiant yw 7.1% neu £13m.

2.4 Nodi bod £2.362m o gyllid dros dro wedi'i gynnwys a bod y Grant Penodol Uplift wedi'i gynyddu o £1.442m yn amodol ar gynnal niferoedd Swyddogion.

2.5 Nodi bod £1.236m o dwf na ellir ei osgoi wedi'i gynnwys

2.6 Nodi bod arbedion gwerth £3.753 miliwn wedi'u pennu ar gyfer 2023/24

2.7 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.5% yn 2024-25 (£15) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfwerth â 3.45% yn 2025-26, 3.33% yn 2026-27, 3.22% yn 2027-28.
- Amcangyfrifir y bydd grantiau plismona'n cynyddu 1.68% yn 2024/25 ac 1 % am y blynyddoedd dilynol.
- Y bydd y dyfarniad cyflog blynyddol yn 2.5% ym mis Medi 2023, gyda 0.5% ychwanegol yn cael ei glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023-24, a 2.5% i'w gymhwyso bob mis Medi dilynol.
- Nodi y dyfarnwyd cynnydd yn y grant i gefnogi Ymgyrch Uplift (costau cylchol a chostau sefydlu) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y dibenion hynny; mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

3. Crynodeb o Gyllideb 2023/24

		£m	
Cyllideb 2022/23		**182.268**	
Chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau		13.012	7.13%
Arbedion a ganfyddwyd		-3.753	-2.06%
Cyllid dros dro		-2.362	-1.30%
Grantiau Penodol Ychwanegol		-1.442	-0.79%
Twf		1.236	0.68%
Gofynion Cyllideb 2023/24		**188.959**	3.68%
Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2023/24			
Grantiau'r Llywodraeth		88.715	0.35%
Treth y Cyngor	£333.09		5.14%
Wedi'i luosi â'r sylfaen drethu	300,952.56		1.58%
Praesept (cyfran cyllid 53.05%)		100.244	6.80%
Cyfanswm y cyllid ar gael		**188.959**	**3.68%**

4. Eitemau Statudol

4.1 Safon y Wybodaeth

4.1.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 5) mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ynglŷn ag addasrwydd y wybodaeth a ddefnyddir yn sail i'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn deillio o weithdrefnau sy'n dal i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Archwilir y systemau hyn yn fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwiliad allanol erioed wedi arwain at adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas at y diben.

4.1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r gronfa gyffredinol wrth gefn yn dal yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu beunyddiol yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi eu hadolygu, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn adran 9. Mae'r Cronfeydd wrth Gefn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r defnydd a gynlluniwyd ar gyfer cronfeydd wrth gefn wedi'u hadolygu'n fanwl ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae sefyllfa gref y cronfeydd wrth gefn wedi'i defnyddio mewn modd darbodus i reoli'r costau gwybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg ar gyfer 2023-24; mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

5. Cefndir

5.1 Ers 2010-11, sy'n cael ei ystyried yn sylfaen cyn caledi, bu cyfnod hir o galedi gyda chyfnod hir o dwf wedi'i dargedu o ran Swyddogion yr Heddlu dros y 3 blynedd diwethaf. Mae cyllid y llywodraeth wedi'i ostwng o -25.2% mewn termau real (o ystyried chwyddiant) erbyn 2022-23, gan arwain at £39m o arbedion dros gyfnod o 12 mlynedd, wedi'i grynhoi isod. Mae 2023-24 yn sylfaen ôl-galedi, ôl-Uplift ond mae wedi'i gymhlethu o ganlyniad i'r ergydion economaidd a welwyd yn 2022-23:

	11/12 i 17/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Arbedion wedi'u cynllunio	**29.625**	**1.479**	**1.927**	**2.358**	**2.902**	**0.755**	**39.046**
Arbedion wedi'u cyflawni	**29.625**	**1.479**	**1.927**	**2.358**	**2.902**	**0.755**	**39.046**
% yr arbedion wedi'u cyflawni	**100%**	**100%**	**100%**	**100%**	**100%**	**100%**	**100%**

5.2 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21, roedd gan y Llywodraeth bolisi yn ei le i gynyddu niferoedd Swyddogion yr Heddlu o 20,000 (Ymgyrch Uplift) dros gyfnod o 3 blynedd. Roedd cyhoeddiadau 2020-21 a 2021-22 yn dyrannu 12,000 o'r swyddogion ychwanegol hyn ymysg Heddluoedd, a dyrannwyd 124 i Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cyhoeddiad cyllid ar gyfer 2022-23 yn rhannu'r 8,000 o swyddogion ychwanegol oedd yn weddill, ac fe gafodd Heddlu Gogledd Cymru 82 arall, oedd yn gyfanswm o 206 (gan gynnwys 8 a ddyrannwyd i Uned Ranbarthol Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol). Yn ychwanegol at y rhain, ariannwyd 30 o swyddogion eraill o braesept 2020-21, felly cyfanswm y cynnydd oedd 236 dros 3 blynedd. Disgwylir y bydd y swyddogion wedi'u recriwtio'n llawn erbyn mis Mawrth 2023, ond bu hyn yn fwy heriol na'r disgwyl oherwydd bod nifer uwch o swyddogion yn gadael y gwasanaeth. Mae cynlluniau recriwtio wedi eu gosod ar gyfer 2023-24 i sicrhau y gellir cynnal y sylfaen newydd o 1,696 swyddog, gan gymryd i ystyriaeth y raddfa uwch o athreuliad.

5.3 Wrth ddarparu cyllid ychwanegol ers 2020/21, canolbwyntiwyd ar Ymgyrch Uplift. Mae grant ychwanegol wedi'i dderbyn er mwyn cynyddu niferoedd swyddogion; ond mae'r grant sylfaen wedi parhau ar yr un lefel yn nhermau arian parod (gostyngiad mewn termau real) sy'n arwain at bwysau cyllidebol mewn meysydd eraill, gan gynnwys costau ychwanegol cynnal nifer uwch o swyddogion. Mae'r dyraniad terfynol o niferoedd a chyllid wedi dylanwadu ar y cynllun at y dyfodol o ran faint o'r gyllideb sydd angen ei neilltuo i ariannu costau cyflogau swyddogion yn y dyfodol, a faint sy'n gallu cael ei neilltuo ar gyfer costau.

5.4 Roedd gan CATC Ionawr 2022 gyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 a 2024-25, fodd bynnag, ers hynny mae nifer o ddigwyddiadau wedi effeithio ar yr amgylchedd economaidd yn gyffredinol, y prif ddigwyddiadau yw:

Y Rhyfel yn Wcráin

- Galw byd-eang am Olew/Ynni wedi gwaethygu oherwydd y bunt yn gwanhau
- Materion parhaus Brexit
- Problemau Cyflenwi Byd-eang
- Cyfraddau chwyddiant yn 10%+ a rhagwelir bydd tua 7% ar gyfer 2023-2024
- Dyfarniadau tâl uwch na'r hyn oedd yn y gyllideb
- Ansicrwydd gwleidyddol a newid yn achosi ansicrwydd ariannol a chyfraddau llog uwch

Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn 2022 wrth i'r DU ddod allan o'r pandemig Covid. Roedd y pandemig wedi arwain at nifer o heriau ond hefyd cyfleoedd wrth i arferion gwaith newid a gosod y seilwaith i gefnogi hyn. Roedd y cyd-destun hwn yn gwneud y sail ar gyfer cynllunio ariannol at 2023-24 ymlaen yn ansicr iawn. Y prif bwysau chwyddiant oedd costau ynni oedd yn cynnwys y cynnydd mwyaf; a dyfarniadau tâl, oedd yn llawer uwch na'r 3% o gynnydd oedd wedi'i gyllidebu, cyfartaledd o 5% i heddweision a 7% i staff yr heddlu. Gan fod costau staff yn cyfrif am oddeutu 80% o gyfanswm costau, mae hyn yn creu cynnydd sylweddol mewn gwariant fel cyfran o'r gyllideb gyffredinol. Mae rhagdybiaethau darbodus wedi eu gwneud ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael adeg paratoi'r adroddiad hwn, ond mae ansicrwydd yn parhau'n uchel.

6. Y Broses Gynllunio

6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ynghlwm yn gosod y cyd-destun cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf, ynghyd â rhagamcanion ar gyfer gwariant ac incwm refeniw a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Diben pennaf y drefn gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau er mwyn cysoni'r cynlluniau gwario â blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl fel y'u nodir yn y Strategaeth Ariannol (Atodiad A o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig). Mae'r blaenoriaethau wedi'u gosod isod ac wedi'u nodi yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2021 (northwales-pcc.gov.uk)

Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Darparu cymdogaethau mwy diogel

- Mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt a'u hatal
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogion a staff yr heddlu
- Gwella diogelwch ffyrdd

Cefnogi dioddefwyr a chymunedau

- Mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol a'u hatal
- Diogelu pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys plant

- Mynd i'r afael â seiberdroseddu a'i atal
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Mynd i'r afael â Throsedd Casineb a'i atal

System Cyfiawnder Troseddol sy'n deg ac effeithiol

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio rhag cael eu tynnu i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu a rhoi cefnogaeth i adsefydlu pobl sydd wedi troseddu.

<u>Y blaenoriaethau plismona cenedlaethol yw:</u>

- Lleihau llofruddiaethau a dynladdiad eraill
- Lleihau troseddau difrifol
- Amharu ar gyflenwadau cyffuriau a llinellau sirol
- Lleihau troseddau cymdogaeth
- Mynd i'r afael â throseddau seiber
- Gwella boddhad ymysg dioddefwyr gyda chanolbwynt penodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig

Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw

Sicrhau mai Gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr fel mae'r Cynllun yn ei nodi, i'w weld yn y Cynllun ar Dudalen:

6.3 Adolygwyd y drefn gynllunio ar gyfer 2023-24 gan yr Uned Cynllunio Strategol, Cyllid, Uwch-arweinwyr a'r Prif Swyddogion. Roedd y canolbwynt cychwynnol ar:

- Fwy o bwyslais ar hirdymor a meddwl tuag at y dyfodol - dros amserlen o 3 blynedd o leiaf.
- Gan ddefnyddio'r mentrau newid corfforaethol fel prif gymhelliant effeithlonrwydd, a chreu capasiti ar gyfer twf.
- Herio meysydd gwasanaeth unigol i ganfod effeithlonrwydd ac arbedion, yn erbyn cefndir o fod angen darparu gwelliant parhaus. Er na chynhaliwyd unrhyw adolygiad trosfwaol yn ystod y cam cynllunio hwn, mae'n rhaid i unrhyw arbedion arfaethedig wneud synnwyr yng nghyd-destun y sefydliad cyfan.
- Y risg bod arbedion yn cael eu cyd-bwyso'n ofalus yn erbyn unrhyw gynigion twf (gyda'r rhain yn gysylltiedig â'r Datganiad).
- Canolbwyntio ar ddarparu newid sylweddol a chyllideb gytbwys yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, er mwyn i ni fod mewn sefyllfa dda ar gyfer yr heriau sydd i ddod.

Ond, gan fod pwysau costau wedi pentyrru'n gyflym yn ystod y flwyddyn, roedd yn rhaid canolbwyntio mwy ar gydbwyso cyllideb 2023-2024, tra'n gosod y sylfaen ar gyfer blynyddoedd y dyfodol trwy osod cyllideb gynaliadwy.

6.4 Roedd y cynlluniau busnes ar gyfer pob maes wedi'u nodi yn y templed, gyda phob adran yn derbyn cyfres o gwestiynau â strwythur yn gysylltiedig â Datganiad Rheoli'r Heddlu. Mae'r Datganiad yn ystyried y canlynol i asesu'r galw, risg a niwed yn y dyfodol gan ddefnyddio'r adnoddau presennol sydd wedi'u dyrannu:

- Galw presennol
- Dealltwriaeth o alw yn y dyfodol
- Rhagdybiaeth o alw yn y dyfodol
- Capasiti cyfredol: Asedau
- Diogelwch cyflenwad
- Gallu : Pobl
- Gallu : Offer
- Iechyd a lles swyddogion a staff
- Cyflwr: Offer
- Perfformiad Presennol
- Asedau: Galw ar gyfer y dyfodol
- Blwch galw gweddilliol
- Risg o niwed i'r cyhoedd
- Risg o niwed i'r sefydliad

6.5 Meysydd eraill a ystyriwyd yn benodol:

- Cyfleusterau a TG, yn cysylltu â gweithio hyblyg
- Costau Ynni

- Cyllid cyfalaf yn cysylltu â Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN - y cynnig arfaethedig i ddisodli radio Airwave)
- Hyd yr amser sydd ei angen er mwyn i swyddogion ychwanegol o Uplift ddod ar gael ar gyfer eu hadleoli'n annibynnol yn dilyn hyfforddiant cychwynnol.
- Adolygiad o'r holl gyllidebau corfforaethol

6.6 Roedd yna hefyd faterion ymarferol i ddelio gyda nhw o ran cynnal cyfarfodydd. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ar adegau roedd angen cynnal y rhain ar-lein. Fodd bynnag, roedd profiad o'r ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Dechreuodd y broses cyn gynted â phosibl, fel y nodir yn y crynodeb isod. Trwy ddiffinio'r drefn yn gynnar yn y broses a chynnal Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol yn rheolaidd trwy gydol y broses (bob wythnos neu bythefnos yn ôl y gofyn), roedd modd dilyn yr amserlen isod. Roedd y mwyafrif o gyfarfodydd wedi eu cynnal ar-lein ond roedd yn bosibl cynnal rhai wyneb yn wyneb erbyn diwedd 2022.

Mai 2022	**Meh-Gorff-Awst 2022**	**Medi - Hyd 2022**	**Tachwedd 2022**	**Rhagfyr 2022 i Ionawr 2023**
Gweithdy'r Prif Swyddog **Gweithdy i Fudd-ddeiliaid Allweddol** **Comisiynu Achosion Busnes** **Comisiynu Cynlluniau Busnes**	**Drafftio Achosion a Chynlluniau Busnes** **Cynllunio Strategol yn blaenoriaethu cefnogaeth y tîm canolog** **Y tîm canolog yn dechrau cyfarfodydd cefnogi gyda'r awduron**	**Cyflwyno ddechrau Medi** **Adolygiad Cyllid a Chynllunio Strategol** **Adolygiad Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol** **Cynigion cychwynnol wedi eu cwblhau**	**Cyfarfod Cynllunio Sefydliadol terfynol** **Datganiad yr Hydref** **Cyfarfod Cyllideb Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaeth er mwyn cadarnhau cynigion**	**Cyflwyno cynigion i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd 5.12.2022** **Cyhoeddiad Grant 14.12.22** **Cadarnhau cynigion gyda'r Comisiynydd 20.12.22** **Drafftio'r Cynlluniau Terfynol ar gyfer y Cyfarfod Panel 30.1.2022**

6.7 Ar yr un pryd cynhaliwyd y drefn arferol ar gyfer datblygu gofynion cyllidebau'r dyfodol, ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Wrth i'r rheolwyr ddatblygu eu cynigion buont yn ystyried y materion canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel y'u nodwyd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu

- Gwasgfeydd newydd a rhai sy'n datblygu
- Y broses cynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd sydd ohoni
- Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol am y cyfnod, gan gynnwys codiadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol sydd ohoni
- Y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Cynllun Adfer COVID

6.8 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gytuno ar ganlyniad y broses gynllunio. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau oedd ar gael i gyflawni blaenoriaethau ac yn llywio'r broses o ddyrannu'r swyddogion Uplift ychwanegol o drydydd cam Ymgyrch Uplift. Trafodwyd y canlyniad drachefn yn y cyfarfod blynyddol i Osod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaethau ac eraill, a chyfunwyd argymhelliad y Grŵp Cynllunio Sefydliadol, gan gynnwys Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill, wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ategol. Yna roedd hyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r CHTh a'i dîm.

6.9 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 5 Rhagfyr 2022 i drafod cynigion y gyllideb, a chyfarfod terfynol ar 20 Rhagfyr 2022 ar ôl i'r Llywodraeth wneud y cyhoeddiad cyllid.

7. Dyraniadau Cyllid

7.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2022-23 ar lefel yr Heddlu fel rhan o setliad 2021-22. Ond, o'r cynnydd dangosol yng nghyllidebau'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2023-24 a 2024-25, gellir disgwyl cynnydd o £1m (1.13%) a £1.68% (£1.5m) yn rhesymol. Gwnaed cyhoeddiadau yn ystod 2021-22 i gadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift, i gynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu o 20,000 ar draws y DU.

7.2 Gwnaed sawl cyhoeddiad yn ystod yr hydref 2022. Daeth Liz Truss yn Brif Weinidog ar 6 Medi, yn dilyn etholiad arweinyddiaeth yn y Blaid Geidwadol. Gwnaeth Kwasi Kwarteng yn Ganghellor ac ar ôl cyhoeddi ymyriad ar ffurf cap ar filiau ynni aelwydydd am 2 flynedd ar 8 Medi, cyflwynodd Mr Kwarteng "gyllideb fechan" ar 23 Medi. Disodlwyd Kwasi Kwarteng gan Jeremy Hunt ym mis Hydref 2022 ac fe wnaeth Ddatganiad Cyllidol ar 17 Hydref 2022. Gwnaed Datganiad llawn yr Hydref ar 17 Tachwedd 2022. Cyhoeddwyd cyllid lefel yr heddlu ar 14 Rhagfyr 2022 mewn datganiad ysgrifenedig gan Weinidog Troseddau, Plismona a Thân. Mae'r paragraffau canlynol yn canolbwyntio ar sut mae'r datganiadau a'r cyhoeddiadau hynny wedi effeithio ar gyllid y Llywodraeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

7.3 Fel arfer dyfernir dyfarniadau cyflog blynyddol Heddweision a Staff yr Heddlu o fis Medi bob blwyddyn, gydag effaith y flwyddyn lawn ar gyllidebau'r blynyddoedd canlynol. Cafwyd trafodaethau helaeth am ddyfarniadau cyflog 2022-23. I ddechrau dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 2.1% i Staff yr Heddlu o fis Ebrill 2022. Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog Heddweision ar gyfradd o gynnydd blynyddol o £1,900 ar gyfer pob pwynt cyflog yn hytrach na chynnydd canrannol, roedd hyn yn gyfystyr â 5% o gynnydd o ran y gyllideb. Cytunodd y Swyddfa Gartref ar gyllid ychwanegol ar gyfer y cynnydd hwn oedd yn uwch na'r disgwyl sef £0.7m ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn 2022-23 a £1.4m disgwyliedig yn 2023-24. Ail-drafodwyd dyfarniad cyflog Staff yr Heddlu yn dilyn cytundeb yr Heddweision ar yr un gyfradd o £1,900 fesul pwynt cyflog, yn gyfwerth â chynnydd cyfartalog o 7% ar gyllideb cyflog Staff yr Heddlu, oherwydd bod cyfran uwch o staff ar gyflog is. Ni roddwyd nac addawyd cyllid ychwanegol ar gyfer codiad cyflog Staff yr Heddlu.

7.4 Cyhoeddwyd Setliad Dros Dro 2023-24 ar 14 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig gan Weinidog Troseddau, Plismona a Thân, y Gwir Anrhydeddus Chris Philp AS. Roedd chwyddiant wedi cynyddu'n llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd adeg yma y llynedd, gyda'r CPI yn cyrraedd 11.1% erbyn mis Hydref. Bu pwysau ar y Llywodraeth gan bob ochr i gynyddu gwariant adrannol i osgoi toriadau termau real. Ond, i fynd i'r afael â lefelau uwch o ddyled, roedd toriadau adrannol yn cael eu hystyried yn allweddol. Arweiniodd hyn at dorri cyllidebau sawl adran gan y Canghellor, Jeremy Hunt.

7.5 Canfu arolwg Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) fod y cynnydd mewn ynni'n unig wedi ychwanegu pwysau o ran costau o £100m a bod hynny'n golygu bod angen cyfanswm o £300m ychwanegol oherwydd pwysau chwyddiant.

7.6 Roedd y cyhoeddiad ar gyfer cynnydd cyffredinol o 1.91% yng nghyllid y Swyddfa Gartref, gyda'r grant cyffredinol yn cynyddu o ddim ond 0.35%, a'r balans yn cael ei ddyrannu fel rhan o Grant Penodol Uplift. Yn ogystal â hyn, roedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr yn gallu cyflwyno cynnydd o £15 yn Nhreth y Cyngor heb fynd i refferendwm, ond mae'r rheolau yn wahanol yng Nghymru (gweler yr adran nesaf). Pe bai'r holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor o £15 byddai'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid yn 3.6%. Y prif bwyntiau o'r cyhoeddiadau oedd:

- Cynyddu Grantiau Sylfaenol y Llywodraeth o 0.35%.
- Gosod terfyn refferendwm Treth y Cyngor Heddlu Lloegr yn £15.
- Gan dybio bod yr holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor o £15 y cynnydd mewn cyllid cyffredinol yw 3.6%.
- Sicrhau bod lefelau swyddogion yr heddlu yn cael eu cynnal ar waelodlin Uplift yr Heddlu a gytunwyd a dyraniadau lefel yr heddlu o 20,000 o swyddogion ychwanegol, gyda Grant Penodol Uplift yn cynyddu o £1.442m.
- Defnyddio'r swyddogion ychwanegol hyn i leihau troseddau a chyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.
- Darparu gwelliannau i gynhyrchiant a chymell effeithlonrwydd, a gwneud y mwyaf o werth buddsoddiad y Llywodraeth.

7.7 Yn ymarferol y ffigyrau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a'r disgwyliadau yw fel a ganlyn:

	CATC Ionawr 2022	**CATC Ionawr 2022 gyda'r addasiadau disgwyliedig**	**Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref**	**Cynnydd o CATC Ionawr 2022**	**Gwahaniaeth o'r hyn a ddisgwyliwyd**
	2022-23	2023-24	2023-24	2022-23	2023-24
Grant	£ 88,407,132	£ 89,407,132	£ 88,714,918	£ 307,786	-£ 692,214
Grant Pensiwn	£ 1,582,031	£ 1,582,031	£ 1,582,031	£ -	£ -
Uplift	£ 1,390,837	£ 1,390,867	£ 2,833,187	£ 1,442,350	£ 1,442,320
Dyfarniadau cyflog		£ 1,443,000		£ -	-£ 1,443,000
Iechyd a Gofal Cymdeithasol		-£ 1,010,000		£ -	£ 1,010,000
Cyfanswm	**£ 91,380,000**	**£ 92,813,030**	**£ 93,130,136**	**£ 1,750,136**	**£ 317,106**

7.8 Roedd y prif Grant wedi'i addasu i lawr o £0.6m i adlewyrchu ardoll Gofal Cymdeithasol, yn hytrach na'r £1m a ddisgwyliwyd. Roedd y grant ychwanegol a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar gyfer y dyfarniad cyflog wedi'i ychwanegu at daliad Grant Penodol Uplift a fydd yn dibynnu ar gynnal niferoedd Swyddogion yr Heddlu ar lefel targed Uplift (nid yw manylion hyn wedi'i gyhoeddi eto). Y cynnydd yn y Grant Cyffredinol yw 0.3%, gyda'r cynnydd cyffredinol yn 1.9% ar ôl cynnwys cynnydd Grant Penodol Uplift. Mae hyn yn doriad mewn termau real o gymharu â'r cynnydd chwyddiant cyffredinol penodol a gyfrifwyd ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru dros y flwyddyn nesaf o 7.13%.

8. Cyllideb 2023-24 a Chyllideb Gynlluniedig 2024-25 i 2027-28

8.1 Mae manylion y cyllidebau a'r newidiadau ar gyfer 2023-24 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad A.

8.2 Dyma'r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o £1,900 fesul pwynt cyflog, yn gyfwerth â 5% i 7% o gynnydd yn y gyllideb flynyddol, wedi'i gymhwyso o fis Medi 2022 i fis Awst 2023.

- Cynnydd dyfarniad cyflog o 2.5% y flwyddyn o fis Medi 2023 ymlaen, gyda chyfwerth o 0.5% wedi'i glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn i liniaru dyfarniad uwch ym mis Medi 2023.

- Cynnydd cynyddran uwch wedi'u cynnwys wrth i Swyddogion Uplift symud drwy'r raddfa gyflog.

- Chwyddiant Cyffredinol wedi'i gyfrifo fesul llinell ar gyfer 2023-24; y cyfartaledd cyffredinol yw oddeutu 7% ond mae hyn yn ymdrin ag ystod eang, hyd at 20% gan gynnwys Ynni. Cynnydd tybiedig o 7% yn 2024-25 lle bo'r swm yn anhysbys.

- Cynnydd mewn prisiau ynni dros gyfnod o 3 blynedd i ymdrin â chynnydd prisiau o 200% ym mlwyddyn un, ond disgwylir iddo ostwng.

- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 5.14% yn 2023-24 (£16.29) a 4.5% (£15) yn 2024-25 a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfwerth â 3.45% yn 2025-26, 3.33% yn 2026-27, a 3.22% yn 2027-28.

- Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth yn cynyddu 0.3% yn 2023-24, 1.68% yn 2024-25 ac 1% ar gyfer y blynyddoedd a ganlyn.

- Bod y grant sylfaenol yn cynnwys Uplift a'r holl gynnydd eraill (hynny yw nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cynnydd cynyddrannau Swyddogion Uplift yn y dyfodol).

- Bod y Grant Cyfalaf wedi'i dynnu'n ôl, bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o gyllid uniongyrchol, cronfeydd wrth gefn a benthyca, oll yn deillio o'r gyllideb refeniw.

- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2024-25 ymlaen. Efallai y bydd cynnydd pellach yn y premiwm ar ail gartrefi ond efallai y bydd gostyngiad yn nifer yr ail gartrefi hefyd.

- Ni fydd Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) yn cael ei weithredu tan 2030 yn awr

- Cyfraniadau i'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol i sicrhau nad yw'r balans yn disgyn yn is na'r isafswm o 3% o werth y Gyllideb Refeniw Net.

- Mae grantiau penodol ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona a chostau ynghlwm â diogelwch gwladol
  Mae hyn yn rhoi'r sefyllfa a ganlyn:

	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol	Flynyddol
	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwaelodlin	182,268	188,959	195,235	201,457	207,953
Chwyddiant Cyflog	6,039	4,293	4,611	4,969	5,095
Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog	6,973	2594	1725	1641	1640
Cyllid dros dro ar gyfer chwyddiant Ynni	-2,362	0	0	0	0
Arbedion	-3,753	-611	-114	-114	0
Cynnydd Grant Penodol Uplift	-1,442	0	0	0	0
Twf	1,236	0	0	0	0
Yn angenrheidiol ar gyfer y Gyllideb	**188,959**	**195,235**	**201,457**	**207,953**	**214,688**
Cyfanswm Grant	-88,715	-90,215	-91,117	-92,028	-92,949
Praesept o Dreth y Cyngor	-100,244	-105,020	-108,913	-112,823	-116,753
Cyfanswm	**-188,959**	**-195,235**	**-200,030**	**-204,851**	**-209,702**
Bwlch yn y Gyllideb	**0**	**0**	**1,427**	**3,102**	**4,986**
Arbedion i'w canfod yn y flwyddyn (heb eu nodi eto)	0	0	1,427	1,675	1,884
% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor	5.14%	4.50%	3.45%	3.33%	3.22%
£ o gynnydd yn Nhreth y Cyngor	16.29	15	12	12	12

8.3 Roedd y gylchred gynllunio'n canolbwyntio ar alinio adnoddau a blaenoriaethau wrth osod cyllideb gytbwys a darparu gwerth am arian i dalwyr treth lleol dros y tymor canolig fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd, yr allbynnau a'r materion penodol a ddeliwyd â nhw fel rhan o'r gylchred oedd:

- Chwyddiant a chynnydd strwythurol sefydlog anochel 2023-24 ac amcangyfrifon at y dyfodol
- Costau Ynni
- Canslo Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Dyraniad o weddill y Swyddogion Uplift sydd heb eu dyrannu ar gyfer 2023-24 ac amcangyfrif o gostau yn y dyfodol
- Arbedion ac effeithlonrwydd ar gael yn 2023-24
- Meysydd blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad yn 2023-24
- Amcangyfrif o gyllid a chostau yn y dyfodol
- Amcangyfrif o'r gofynion cyfalaf yn y dyfodol, gan gynnwys gohirio Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys
- Amcangyfrif a gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r CATC

8.4 Y broblem fwyaf a ddaeth i'r amlwg ac a ddatblygodd dros y cyfnod cynllunio oedd cost ychwanegol Chwyddiant a thwf strwythurol nad oedd modd ei osgoi. Mae cyfanswm y gost a gyfrifwyd yn £13.011m, wedi'i rannu'n £6.039m o gyflog a £6.972m nad yw'n ymwneud â chyflog, wedi'i liniaru gyda £2.362m o gyllid dros dro ar gyfer ynni gan ddarparu balans o £10.649m. Mae hyn wedi'i grynhoi isod, ac mae'r adrannau canlynol yn dangos dadansoddiad o'r costau:



Twf Strwythurol - Cyflog yn £1,900	Twf Strwythurol nad yw'n ymwneud â chyflog	Cyllid dros dro o falensau/incwm

8.5 **Chwyddiant cyflog**



Rhagdybiaeth Cyflog CATC 3%	Dyfarniad Cyflog £1,900 – costau ychwanegol	Gostyngiad Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Roedd CATC Ionawr 2022 yn cynnwys rhagdybiaeth o gynnydd o 3% mewn dyfarniadau cyflog Heddweision a Staff o fis Medi 2022. Y dyfarniad terfynol oedd cynnydd o £1,900 ar gyfer pob pwynt cyflog yn gyfwerth â chyfartaledd o 5% o gynnydd ar gyfer cyflog Heddweision a 7% ar gyfer staff. Mae hyn wedi arwain at gostau ychwanegol o £3.375m ar gyfer 2023-24. Cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o £1.4m i gefnogi'r cynnydd ond roedd hyn wedi'i ymgorffori i Grant Penodol Uplift yn y cyhoeddiad terfynol. Tynnwyd ardoll Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ôl yn 2022-23 gan arwain at arbediad o £1.010m.

8.6 Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau a thwf strwythurol :



Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn 2% CATC	Goramser	Pensiwn Anaf	Yswiriant	Ynni	Ynni (Cyllid dros dro)	Ystadau	Tanwydd	Tanwydd (cyllid dros dro)	Fflyd	TGCh	Arall

- **Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn 2% CATC** - dyma'r sylfaen chwyddiant o 2% a nodwyd yn CATC mis Ionawr 2022, mae'r penawdau isod yn ychwaneg at y sylfaen yn dilyn adolygiad fesul llinell o'r cyllidebau.

- **Goramser** - o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog mae angen cynyddu costau goramser o £0.075m.

- **Pensiwn Anaf** - dyma'r unig elfen o Bensiynau'r Heddlu sy'n parhau o fewn y Gyllideb Refeniw, mae'r cynnydd yn seiliedig ar ffigyrau chwyddiant mis Medi 2022 sydd wedi arwain at gynnydd cyffredinol o 10%.

- **Yswiriant** - Mae costau yswiriant yr Heddlu wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd nifer cyfyngedig o gwmnïau sydd ar gael yn y farchnad ac yn rhannol oherwydd costau setliadau. Disgwylir i yswiriant cerbydau gynyddu oddeutu 25% yn 2023-24.

- **Ynni** - mae prisiau ynni, nwy a thrydan, wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi symud i gontract prisio amrywiol lle y gellir prynu nwy a thrydan fesul chwarter; yn y tymor canolig bydd hyn yn galluogi prynu nwy a thrydan am brisiau is. Ond, nid oedd hyn yn bosibl yn y farchnad bresennol, er mae prisiau uwch wedi'u capio ar gyfer 2022-23 drwy gymorth y Llywodraeth. Mae'r prisiau'n hynod newidiol ac yn anodd eu rhagweld. Y consensws a'r cyngor presennol gan ein hymgynghorwyr ynni yw bydd y pris a delir (hynny yw, ar ôl addasiadau ar gyfer cymorth y Llywodraeth) yn cyrraedd uchafbwynt yn 2023-24 ac yna'n dod i lawr i sylfaen newydd yn 2026-27. Y cynnydd ar gyfer y flwyddyn nesaf yw £3.690m a disgwylir i'r cynnydd sylfaenol, yn 2025-26, fod yn £1.648m a chwyddiant fesul blwyddyn. Mae'r CATC yn cynnwys cynnydd o £1.648m ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd ac yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng y swm yma a'r swm uwch drwy gyllid dros dro. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynllun.

Cynllun cyllido cynnydd mewn prisiau ynni					
Blwyddyn	23/24	24/25	25/26	26/27	27/28
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhagdybiaeth o'r cynnydd mewn costau ynni	3,690	2,299	1,648	1,670	1,720
Ariennir gan:					
Cynnydd yn y gyllideb Ynni	-1,528	-1,574	-1,648	-1,670	-1,720
Incwm Buddsoddi Ychwanegol	-850	-500	0	0	0
Cronfa Ynni Wrth Gefn	-1,312	-225	0	0	0
Balans	0	0	0	0	0
CRONFA YNNI WRTH GEFN					
Dwyn ymlaen	3,300	1,988	1,763	1,763	1,763
Wedi'i gymhwyso yn y flwyddyn	-1,312	-225	0	0	0
Cario drosodd	1,988	1,763	1,763	1,763	1,763

Un effaith yn sgil ansicrwydd economaidd yn ddiweddar yw cynnydd mewn cyfraddau llog, a fydd yn arwain at incwm ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf gyda disgwyl i'r cyfraddau ostwng yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r incwm dros dro hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu'r cynnydd dros dro a ddisgwylir gyda chostau ynni, gyda'r balans yn cael ei ariannu o'r gronfa ynni wrth gefn. Bydd angen adolygu'r cynllun dros y 12 mis nesaf. Os bydd prisiau'n gostwng fel y rhagwelir gellir ail-bwrpasu'r balans yn y gronfa wrth gefn, ond os yw prisiau'n parhau'n uwch am gyfnod hirach mae balans ar gael ar hyn o bryd ar gyfer hyn.

- **Costau ystadau-** adolygwyd holl benawdau cyllideb sy'n ymwneud ag ystadau gyda chwyddiant yn rhedeg rhwng 3% a 25%.
- **Tanwydd -** fel y prisiau ynni, mae prisiau tanwydd wedi bod yn newidiol, a hynny ers sawl blwyddyn bellach. Mae cronfa wrth gefn tanwydd eisoes ar gael ac os yw'r prisiau tanwydd uchel yn parhau gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn ar eu cyfer.
- **Fflyd -** adolygwyd costau eraill y fflyd ar gyfer chwyddiant ychwanegol a ddisgwylir.
- **TGCh -** fel arfer mae gan feddalwedd TG a chontractau cynnal a chadw gynnydd blynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant; mae'r cynnydd yma'n adlewyrchu'r chwyddiant uwch sy'n ofynnol yn dilyn adolygiad fesul contract.
- **Arall -** mae hyn yn ymwneud â chontractau eraill sydd â chynnydd blynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant, fel Pensiynau Swyddogion, darpariaethau meddygol amrywiol, cydweithrediadau amrywiol, a chontractau llai eraill.

Mae'r uchod wedi arwain at £3.5m o gynnydd chwyddiant ychwanegol, gyda £2.4m pellach wedi'i ariannu dros dro.

8.7 **Arbedion** - Mae gan Heddlu Gogledd Cymru gofnod rhagorol o nodi a darparu arbedion, £39m ers 2011-12, gyda dros £6m o'r rhain wedi'u darparu dros y 3 blynedd diwethaf drwy'r broses gynllunio. Ond, mae arbedion effeithlonrwydd a nodir gan feysydd gwasanaeth wedi bod yn anoddach eu canfod dros amser. Oherwydd yr amgylchiadau presennol nodwyd arbedion a chyfleoedd lefel corfforaethol eraill, gyda'r fantolen gref yn hwyluso rhai o'r arbedion ychwanegol hyn. Nodir y manylion isod:



Arbedion Meysydd Gwasanaeth	Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN)	Arbediad Swyddi Gwag	Contract Caffael TGCh	Cyfraniad i'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn	Incwm	TGCh	Cyfraniadau Staff Pensiwn yr Heddlu	Arall

- **Arbedion Meysydd Gwasanaeth** - Mae Meysydd Gwasanaeth wedi nodi £6m o arbedion dros y 3 blynedd diwethaf, cyfartaledd o £2m y flwyddyn. Roedd disgwyl y byddai'n anoddach canfod arbedion heb effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth, ond nodwyd £0.539m pellach. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:



- **Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) -** Mae hyn wedi'i gynnwys yn y ddau CATC diwethaf. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol i uwchraddio a disodli'r rhwydwaith gyfathrebu ac offer Airwave a ddefnyddir ar hyn o bryd i gontract cenedlaethol newydd. Disgwyliwyd y byddai'n cael ei weithredu yn 2023-24. Amcangyfrifwyd gofyniad cyllidebol o oddeutu £9m, byddai'n cael ei ariannu o gyfraniad refeniw o £1.3m fesul blwyddyn i greu cronfa wrth gefn i ddechrau, ac yna ariannu'r balans drwy fenthyca. Mae'r prosiect cenedlaethol wedi'i ohirio yn awr ac ni ddisgwylir iddo gael ei weithredu nes ar ôl 2027-28. Yn yr amgylchiadau presennol mae'r £1.3m wedi'i dynnu allan o'r gyllideb. I liniaru costau yn y dyfodol bydd cronfa wrth gefn ESN yn cael ei gynyddu o £2m o'r 6m o danwariant yn 2022-23, fel cyfraniad cychwynnol i gostau'r dyfodol.
- **Ffactor Trosiant / Swyddi Gwag -** dros y 3 blynedd diwethaf cafwyd blynyddoedd pontio o ran staffio gyda chynnydd o 236 swyddog a 125 aelod o staff. Bydd mwyafrif, os nad y cyfan, wedi'u recriwtio erbyn mis Mawrth 2023. Ailadolygwyd y ffactor Trosiant / Swyddi Gwag wrth ddechrau 2023-24. Y strategaeth recriwtio cyffredinol yw llenwi'r holl swyddi cyn gynted â phosibl, gyda'r disgwyl y bydd niferoedd y Swyddogion yn rhagori ar y niferoedd disgwyliedig yn ystod 2023-24, ond mae rhywfaint o arbedion i'w disgwyl wrth i swyddogion profiadol ymddeol neu gael dyrchafiad a chael eu disodli gan swyddogion sydd newydd gymhwyso ar bwynt is ar y raddfa gyflog. O ran staff, mae rhai swyddi gwag yn codi pan fydd staff yn cael eu disodli. Mae cyfanswm ychwanegol y trosiant o £0.750m yn cynyddu'r cyfanswm o £1.5m ac yn risg o fewn y gyllideb os cyflawnir y niferoedd llawn, yn unol â'r strategaeth, ond gellir ei liniaru gyda chronfa wrth gefn Uplift fel y cynlluniwyd o ran 'gor-recriwtio' swyddogion. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r ganran isaf o ran niferoedd gadael yn genedlaethol, ond fel yr heddluoedd eraill mae'r niferoedd gadael wedi cynyddu dros y 12 i 18 mis diwethaf.
- **Contract Caffael TGCh -** mae'r prif gontract rheoli TG wedi'i adolygu a'i aildendro dros y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd yr elfen o dan adolygiad werth £4.4m o gyllideb TG (oddeutu 30% o'r cyfanswm) ac mae wedi'i ddylunio yn wahanol i'r contract blaenorol. Arweiniodd hyn at 3 tendr a chynnydd yn y tîm mewnol. Arweiniodd y ffigyrau terfynol at £0.275m o arbedion yn 2023-24 a photensial ar gyfer £0.454m fesul blwyddyn o 2024-25. Nodwyd arbedion pellach mewn perthynas â meddalwedd nad oes ei angen bellach gan greu arbediad ychwanegol o £0.180m.
- **Cyfraniad i'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn -** Roedd CATC mis Ionawr 2022 yn cynnwys cyfraniad o £0.228m i'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yn 2023/24 i sicrhau bod y cyfanswm ar lefel ofynnol o 3% o'r gyllideb net. Gwnaed cyfraniad ychwanegol o danwariant 2021-22 ac felly gellir ystyried y £0.228m fel arbediad untro.
- **Incwm -** Yn ogystal â'r targedau incwm ychwanegol penodol mae targed cyffredinol ychwanegol o £0.200m wedi'i gynnwys ar gyfer incwm untro yn ystod y flwyddyn.
- **Cyfraniadau Pensiwn Staff yr Heddlu** - mae cyfradd y cyfraniadau ar gyfer y 3 blynedd nesaf wedi'u gostwng o 19% i 18.7% gan arwain at arbediad o £0.115m.
- **Arall** - Trwy archwilio patrymau gwario mae £0.165m pellach wedi'i arbed drwy nifer o benawdau cyllideb.

Mae cyfanswm arbedion o £3.753m yn swm sylweddol, cyfwerth â gostyngiad o £12.47 ym Mand D Treth y Cyngor. Mae rhai o'r arbedion yn cynyddu'r risg o fewn y gyllideb flynyddol ond mae ein mantolen gref yn galluogi lliniaru'r risg drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

8.9 **Ymgyrch Uplift -** Ymgyrch Uplift yw cynnydd o 20,000 o swyddogion yn genedlaethol. Cyfran Heddlu Gogledd Cymru o hyn yw 206. Dyrannwyd y dyraniad terfynol o'r rhain o 82 yn 2022-23, a byddant wedi'u recriwtio erbyn diwedd Mawrth 2023. Dyrannwyd yr holl gyllid ar gyfer Uplift yn 2022-23 hefyd. Y Grant Penodol ychwanegol o £1.442m yw'r arian dyfarniad cyflog ychwanegol a gyhoeddwyd yn flaenorol ond sydd yn awr wedi'i gynnwys fel rhan o Grant Penodol Uplift. Mae mwyafrif y cyllid Uplift yn awr wedi'i gynnwys yn y Grant Cyffredinol. O ran gweithredu Uplift yn llawn dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- I gynnal y cynnydd mewn niferoedd mae'n rhaid disodli'r swyddogion sy'n gadael, ac mae'n cymryd 10 i 12 mis er mwyn galluogi Swyddogion Prawf i weithio'n annibynnol. I ddechrau mae swyddogion yn cael eu hanfon i rolau ymateb; mae swyddi eraill yn recriwtio o rolau ymateb yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod bwlch rhwng y cyfnod recriwtio a llenwi'r rolau newydd, fel y nodir yn y graff isod yn seiliedig ar y ffigyrau presennol:



Glas - Cyllideb - Cyfanswm gan gynnwys Swyddogion dan hyfforddiant

Coch – Cyllideb -Swyddogion gweithredol

Gwyrdd – Swyddogion Cyflogedig

Piws – Swyddogion Gweithredol

- Er y cyflawnir targed Uplift erbyn Mawrth 2023, dim ond o fis Awst 2023 y bydd y nifer yn gyson ar draws y sefydliad a bydd yn fis Mehefin 2024 pan fydd digon o swyddogion wedi'u hyfforddi i lenwi'r holl swyddi.

- Mae cynlluniau recriwtio yn eu lle ar gyfer y flwyddyn nesaf i gynnal y niferoedd hyn, oherwydd y cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael mae'n debyg y bydd angen derbyn dwbl y niferoedd sef 33 o gymharu â'r sylfaen o 18 yn y flwyddyn lawn.
- Unwaith y bydd niferoedd y swyddogion wedi cyrraedd y nifer a gyllidebwyd ar ei gyfer mae 20 o swyddi swyddogion ar gael i'w dyrannu.
- Mae'r Prif Gwnstabl wedi comisiynu Adolygiad Plismona Gweithredol a fydd yn
    - Gwneud y gorau o adnoddau ar gyfer yr heriau presennol ac yn y dyfodol
    - Gwirio ein strwythurau presennol
    - Mynd i'r afael â phwysau cyson ar alw
    - Llywio arbedion effeithlonrwydd

- Bydd yr 20 swydd sydd ar gael yn cael eu dyrannu fel rhan o'r adolygiad
- Mae cost ychwanegol y cynyddrannau cyflog yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y blynyddoedd sydd i ddod

8.10 **Twf -** Ychydig iawn o gwmpas sydd ar gyfer twf yn 2023-24 gyda phwysau chwyddiant eraill, ond mae rhai ychwanegiadau yn anodd eu hosgoi oherwydd y newid mewn galw. Cyflwynwyd cyfanswm cynigion o £7m i ddechrau. Roedd y rhain wedi'u blaenoriaethu i leihau twf i gyfanswm o £1.236m, wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

Disgrifiad	£m
Cytundebau yn ystod y flwyddyn	0.226
Refeniw y Broses Gynllunio	0.788
Cyfalaf blynyddol y Broses Gynllunio	0.115
Twf OPCC	0.107
Cyfanswm	1.236

- Mae **Gofynion yn ystod y flwyddyn** yn ymwneud yn benodol ag Uned Cefnogi Gwyddonol sy'n ofynnol i sicrhau achrediad yn y dyfodol £0.164m; Trwyddedu Arfau £0.033m; Cydweithrediadau £0.029m.
- **Refeniw y Broses Gynllunio -** Asesiad o'r cynigion gyda chyfanswm :
    - Cynigion parhaol £2.3m oddeutu 33 o swyddi staff
    - Cynigion dros dro £1.8m oddeutu 34 o swyddi staff

wedi'i gyflawni fel rhan o'r broses gynllunio, gan ddefnyddio sgôr bygythiad a niwed MoRiLE. Cytunwyd ar gyfanswm o £0.788m yn cynnwys 13.5 o swyddi a £0.210m ar gyfer twf nad yw'n ymwneud â staff, fel y crynhowyd isod:

Darparu cymdogaethau mwy diogel	**System Cyfiawnder Troseddol sy'n deg ac effeithiol**
• Meddalwedd Fforensig Achrededig • 2 Swyddog Ansawdd Gwyddonol • Pwynt Cyswllt ymchwyliadau ffon	2 x Swyddog Dalfeydd 2 x Swyddog Fetio Swyddog Cywirdeb Data Troseddau 3 x Swyddog Crwner

	1 x Swyddog Cyfathrebu

- **Symiau blynyddol y Rhaglen Gyfalaf -** craffwyd cyfanswm y cynigion cyfalaf o £3m. Cytunwyd ar ddau brosiect. Gwelliannau adeilad SARC sy'n ofynnol i foderneiddio'r cyfleuster a chydymffurfio â meini prawf arolwg o £0.450m (yn ogystal â'r £0.150m sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf) a disodli'r offer Recordio Cyfweliadau Digidol, oherwydd bod yr offer presennol yn dod i ddiwedd oes £0.450m.

- **Twf OPCC -** Cynnydd o 2 swydd (Dadansoddwr a Phrentis Modern), Costau Cyfreithiol ychwanegol a chyfraniad ychwanegol i Gydweithredfa Cymru Gyfan gyda chyfanswm o £0.107m.

- Mae'r cynigion Twf nas cytunwyd arnynt, a'r cynigion twf dros dro yn cael eu hadolygu ymhellach gan Arweinwyr Gwasanaeth cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol i ariannu unrhyw un o'r rhain dros dro.
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu - mae'r Comisiynydd wedi cynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol o 10 yn 2022-23, sy'n ychwaneg at y twf o 20 gan Lywodraeth Cymru. I ddiwallu'r Amodau a Thelerau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau 222 o Swyddogion Cymorth Cymunedol bydd 6 ychwanegol yn cael eu hariannu o'r cynnydd grant presennol gan sicrhau 211 gyda recriwtio yn cynyddu'r nifer i 222. Bydd symudiadau naturiol yn dod â'r niferoedd i lawr rhwng y carfannau recriwtio, bydd y niferoedd ychwanegol dros 211 yn cael eu hariannu o Gronfa wrth gefn Plismona Cymdogaeth

8.11 Mae'r cynllun sydd wedi'i grynhoi uchod yn gosod sylfaen newydd ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod: penodi'r holl swyddogion ychwanegol drwy ymgyrch Uplift, cefnogaeth ar gyfer y swyddogion ychwanegol, a buddsoddi mewn isadeiledd. Bu i'r broses gynllunio yn ystod 2022-23 ddelio â chynnydd sylweddol o ran chwyddiant, gydag ychydig iawn o gynnydd mewn cyllid gan y Llywodraeth. Nodwyd arbedion sylweddol, ynghyd â defnydd darbodus o'r cronfeydd wrth gefn i alluogi cydbwyso cyllideb 2023-24. Roedd angen cynnydd uwch na'r disgwyl yn Nhreth y Cyngor ar gyfer hyn, ond cadwyd y cynnydd i'r isafswm drwy gamau a gymerwyd yn ystod y broses gynllunio.

8.12 Mae'r cynnydd sy'n ofynnol yn sylfaen newydd 2023-24 yn seiliedig ar y tybiaethau a nodwyd uchod. Mae'r rhain yn rhesymol, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ac yn unol â thybiaethau Plismona cenedlaethol. Ond, fel y gwelwyd yn ystod 2022-23 mae lefel yr ansicrwydd yn uchel.

8.13 Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn mae cyllideb gytbwys wedi'i gosod ar gyfer 2024-25, yn seiliedig ar gynnydd Treth y Cyngor o £15/4.5%. Ond, mae bwlch yn y blynyddoedd sydd i

ddilyn yn seiliedig ar gynnydd Treth y Cyngor o £12/3.3% ac nid yw'n cynnwys unrhyw dwf. Mae'r Prif Gwnstabl wedi comisiynu Rhaglen Optimeiddio Gweithredol, a bydd hyn ynghyd â rhai adolygiadau presennol yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer proses gynllunio'r flwyddyn nesaf. Mae prosiectau effeithlonrwydd hirdymor yn cael eu datblygu a fydd yn mynd i'r afael â'r gofynion arbed o oddeutu £5m neu £1.7m y flwyddyn o 2025-26 i 2027-28.

9. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, megis digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol, neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Rheolir elfen o'r risg drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r cyllidebau arian at raid. Fodd bynnag, mae'r cyllidebau arian at raid yn cael eu lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac eto wrth lunio Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd y sefyllfa alldro derfynol yn hysbys.

9.3 Cynhaliwyd adolygiad manwl fel rhan o'r broses gynllunio i asesu sut y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r tanwariant a ragwelwyd o oddeutu £6m i reoli gwariant a risg i alluogi cyllideb wedi'i mantoli a chefnogi parhad y gwasanaeth. Y prif newidiadau oedd:

- Dyrannu £2.5m o danwariant a ragwelwyd i Gronfa wrth gefn Ynni, a £1.5m i sefydlu Cronfa Wrth Gefn Cynaliadwyedd. Bod Cronfa Wrth Gefn Ynni'n cael ei defnyddio i ymdopi â'r brig a'r hyn na ellir ei ragweld o ran costau, a bod Cronfa Wrth Gefn Cynaliadwyedd yn cael ei defnyddio i fuddsoddi mewn lleihau ôl-troed carbon a'r defnydd o ynni. Os bydd costau Ynni'n sefydlogi gellir symud balans Cronfa Wrth Gefn Ynni i Gronfa wrth Gefn Cynaliadwyedd.
- Dyrannu £2m i Gronfa Wrth Gefn ESN, ynghyd â throsglwyddo £1.883m o Gronfa Wrth Gefn Rheoli Newid a £1.144 o Gronfa Wrth Gefn Uplift gan ddarparu cyfanswm (gan gynnwys y swm a ddygwyd ymlaen a'r cyfraniad a gynlluniwyd yn 2022/23) o £7.285m. Bydd £1.285m o hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu unedau newydd Airwave a bydd balans o £6m yn y gronfa i ariannu costau ESN yn y dyfodol. Mae hyn yn caniatáu diddymu dyraniad cyllid refeniw cylchol i ESN o'r gyllideb refeniw flynyddol.
- Adolygwyd ymrwymiadau eraill a glustnodwyd
- £0.750m wedi'i glustnodi yng Nghronfa Wrth Gefn Rheoli Newid ar gyfer costau dros dro sy'n deillio o'r broses gynllunio
- £0.750m wedi'i glustnodi yng Nghronfa Wrth Gefn Rheoli Newid i liniaru codiad cyflog ychwanegol posibl o 0.5% yn 2023-24.
- Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu'r cynnydd o ran costau mewn Prosiectau Ystadau.
- Ni fydd unrhyw swm ychwanegol yn cael ei gyfrannu i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol nes 2026-27 gan y cynyddwyd i'r swm gofynnol ar ddiwedd 2022-23.

9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £42.837m i £21.869m dros y 10 mlynedd nesaf.

9.4 Mae'n cael ei ystyried yn ddoeth cynnal Cronfa Gyffredinol wrth Gefn o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net. Gan fod y rhain yn gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i liniaru ar risgiau, mae'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i chynnal fymryn uwchben 3%. Wrth i'r gwariant refeniw net gynyddu, fodd bynnag, bydd yn hanfodol cynnwys y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i gynnal balans o 3%, mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol ac wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb isod:

Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn *Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio*	Balans 31.3.22 Balans £m	Balans 31.3.23 Balans £m	Balans 31.3.24 Balans £m	Balans 31.3.25 Balans £m	Balans 31.3.26 Balans £m	Balans 31.3.27 Balans £m	Balans 31.3.28 Balans £m	Balans 31.3.29 Balans £m	Balans 31.3.30 Balans £m	Balans 31.3.31 Balans £m
Balans y Gronfa Gyffredinol	6.066	6.120	6.120	6.120	6.120	6.243	6.369	6.496	6.624	6.753
Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn wedi'u Clustnodi	34.481	38.418	28.370	26.192	24.244	22.797	21.743	21.168	14.216	14.216
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	2.349	3.648	0.975	1.250	1.000	0.900	0.900	0.900	0.900	0.900
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio	**42.837**	**48.186**	**35.465**	**33.562**	**31.364**	**29.940**	**29.012**	**28.564**	**21.740**	**21.869**

9.5 Manylir ynghylch pob cronfa wrth gefn wedi'u chlustnodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan gynnwys disgrifiad o'r modd y bwriedir eu defnyddio.

10. Cyfalaf

10.1 Mae angen buddsoddiad parhaus mewn asedau ac isadeiledd y CHTh er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn adlewyrchu gweithrediad Strategaethau Ystadau, TG a Fflyd. Mae gweithredu Ymgyrch Uplift; adolygu'r gofynion fel rhan o'r gylchred gynllunio; a chynllun adfer COVID, wedi arwain at newidiadau i'r rhaglen a gynlluniwyd.

10.2 **Ystadau -** Daeth y Ganolfan Comisiynu Cerbydau a Gweithdy'n weithredol yn ystod 2022-23 ynghyd â phrosiectau bach eraill. Mae costau prosiectau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gyllideb ar gyfer y prosiect mawr nesaf, Gorsaf Heddlu newydd yng Nghaergybi, wedi'i gynyddu i adlewyrchu hyn ond bydd yn destun craffu pellach. Mae swm arian at raid wedi'i gynnwys ar gyfer prosiectau mawr yn y dyfodol.

10.3 **Fflyd -** Cynhaliwyd adolygiad manwl o Raglen Adnewyddu'r Fflyd yn 2021-22 gyda'r rhaglen yn cael ei gweithredu o 2022-23. Profwyd problemau cyflenwadau a chostau yn ystod 2022-23, gyda dyddiadau danfon annibynadwy a chyflenwyr yn cynyddu costau oherwydd y cynnydd mewn galw am gerbydau'n gyffredinol. Mae'r gyllideb yn adlewyrchu'r gofynion ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ond bydd angen ei hadolygu pan fydd y cam cychwynnol wedi'i gwblhau, a hefyd i gynnwys mwy o gerbydau trydan.

10.4 **TG a Chyfathrebu** – Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud mewn TG. Mae'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Digidol yn arwain hyn. Mae cam cyntaf cyflwyno gliniaduron personol i'r

holl swyddogion a staff lle bo'n briodol wedi'i gwblhau, mae rhaglen y dyfodol yn adlewyrchu'r cylch disodli ar gyfer gliniaduron a chyfrifiaduron. Mae uwchraddio meddalwedd cysylltiol hefyd wedi'i gwblhau. Mae ffonau symudol newydd yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd. Mae gwaith uwchraddio Gorchymyn a Rheoli'n mynd rhagddo. Bydd offer Fideo sy'n cael ei wisgo'n cael ei ddiweddaru'r flwyddyn nesaf.

10.5 Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) - prosiect cenedlaethol sydd wedi'i ohirio tan ar ôl 2027-28. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hailalinio fel y bydd cyfanswm o £7.285m yng nghronfa ESN wrth gefn ar ddiwedd Mawrth 2023. Bydd £1.285m o hyn yn cael ei ddefnyddio i ddisodli unedau Airwave sy'n dod i ddiwedd oes.

10.6 Mae cyllid cyfalaf wedi'i adolygu i gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau newydd a'r cynnydd mewn costau. Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ar sail amcangyfrifon presennol o ran costau a'r cyllid fydd ar gael. Bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiynydd fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf erbyn diwedd Mawrth 2023. Mae hyn yn ofyniad statudol ac mae'n cynnwys Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Darbodus. Mae crynodeb o'r Rhaglen a'r cyllid isod, gellir canfod y manylion yn y CATC.

Disgrifiad	**2022-23 Amcan Diwygiedig**	**2023-24 Amcan**	**2024-25 Amcan**	**2025-26 Amcan**	**2026-27 Amcan**	**2027-28 Amcan**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Cyfanswm Ystadau	2,747	7,184	5,890	6,050	2,100	0
Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill	2,732	1,931	2,441	1,797	1,341	1,683
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3,320	4,675	2,900	1,736	3,339	820
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	**8,799**	**13,790**	**11,231**	**9,583**	**6,780**	**2,503**
Cyllid	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**	**2025-26**	**2026-27**	**2027-28**
Grant y Swyddfa Gartref	0	0	0	0	0	0
Cyfraniad Refeniw	2,946	3,327	3,082	3,025	2,726	2,280
Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi:	2,173	1,135	779	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	426	2,673	100	750	100	0
Benthyca ar gyfer Ystadau	2,271	4,386	5,790	4,620	2,000	0
Benthyca ar gyfer y rhaglen adnewyddu	983	2,269	1,480	1,188	1,954	223
Cyfanswm Cyllid	**8,799**	**13,790**	**11,231**	**9,583**	**6,780**	**2,503**
Ffynonellau allanol	0	0	0	0	0	0
Ein hadnoddau ein hunain	5,545	7,135	3,961	3,775	2,826	2,280
Dyled	3,254	6,655	7,270	5,808	3,954	223
CYFANSWM	**8,799**	**13,790**	**11,231**	**9,583**	**6,780**	**2,503**

11. Ystyried y Dewisiadau

11.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Fel y nodwyd uchod yn ystod y broses gynllunio nodwyd cynnydd sylweddol oherwydd y pwysau chwyddiant uwch na'r disgwyl. Dengys yr effaith ar y symudiadau amrywiol ar Dreth y Cyngor isod. Byddai chwyddiant (Twf Strwythurol) wedi cynyddu treth y cyngor o 11+% ar ei ben ei hun. Lliniarwyd hyn cymaint â phosibl o arbedion, cyllid dros dro, cynnydd uwch yn y sylfaen dreth a thwf hanfodol yn unig.



Cyflog Twf Strwythurol	Twf Strwythurol nad yw'n ymwneud â chyflogau	Arbedion	Twf yr Heddlu	Twf Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Cyllid y Swyddfa Gartref	Sylfaen Drethu / Premiwm Ail gartrefi

Categori	23/24 £k	Treth y Cyngor £	Treth y Cyngor %	Treth y Cyngor ceiniogau yr wythnos
Twf Strwythurol Cyflogau	6039	20.07	6.33	39
Twf Strwythurol nad yw'n ymwneud â chyflogau	4611	15.32	4.84	29
Arbedion	-3753	-12.47	-3.94	-24
Twf yr Heddlu	1128	3.75	1.18	7
Twf Swyddfa'r Comisiynydd	108	0.36	0.11	1
Cyllid y Swyddfa Gartref	-1750	-5.81	-1.84	-11
Y Sylfaen Drethu/ Premiwm ail gartrefi	-1480	-4.92	-1.55	-9
Cyfanswm Treth y Cyngor	**4903**	**16.29**	**5.14**	**31**

11.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod codi Treth y Cyngor 5.14% yn rhoi cyllideb ddigonol i fedru gweithredu'r gwasanaeth plismona yn 2023/24. Ond, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y grant yn y dyfodol, codiadau cyflog a newidiadau mewn gwasgfeydd gweithredol, nid yw'n bosibl gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol diweddarach, ac mae'n rhaid deall y byddai gostyngiad sylweddol yn y grant neu godiadau cyflog uwch na'r disgwyl yn arwain at doriadau pellach a/neu fwy o gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau, serch hynny, yn rhai darbodus ac yn gyson â'r rheiny a wneir yn y sector Plismona yn gyffredinol.

11.3 Wrth gynyddu Treth y Cyngor 5.14% y swm ar gyfer pob band eiddo yw:

Band Treth	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Treth y Cyngor £	222.06	259.07	296.08	333.09	407.11	481.13	555.15	666.18	777.21

11.4 Bydd praesept pob ardal filio fel a ganlyn:

Awdurdod Bilio	Sylfaen Drethu 2023-24	Praesept £
Cyngor Sir Ynys Môn	32,819.56	**10,931,867**
Cyngor Gwynedd	56,182.77	**18,713,919**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	51,378.04	**17,113,511**
Cyngor Sir Ddinbych	40,921.19	**13,630,439**

Cyngor Sir y Fflint	65,815.00	**21,922,318**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	53,836.00	**17,932,233**
	300,952.56	**100,244,287**

12. Goblygiadau

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer y gweithwyr yn yr Heddlu mewn blynyddoedd i ddod.
Ariannol	Diben yr adroddiad hwn yw argymell Praesept a Threth y Cyngor ar gyfer 2023/24 ac egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hirdymor a thymor canolig wrth wneud penderfyniadau. Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throsedd a chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol.
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn rhoi digon o wybodaeth i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Risg	Mae'r adroddiad hwn yn nodi ac arfarnu'r risgiau yn sgil yr argymhellion.
Heddlu a Throsedd	Nid oes goblygiadau ar wahân i'r cynllun heddlu a throsedd.

Cyllideb Refeniw 2022-23 to 2027-28 **Atodiad A**

	Gwariant	Cyllideb Flynyddol 2022-23 £000	+Cynnydd - Gostyngiad 2023-24 £000	Cyllideb Flynyddol 2023-24 £000	Cyllideb Flynyddol 2024-25 £000	Cyllideb Flynyddol 2025-26 £000	Cyllideb Flynyddol 2026-27 £000	Cyllideb Flynyddol 2027-28 £000
1	Cyflog Swyddogion Heddlu	96,380	3,138	99,518	102,572	105,913	109,578	113,338
2	Cyflog Staff yr Heddlu	52,997	4,722	57,719	59,170	60,656	62,180	63,742
3	Goramser Swyddogion Heddlu	2,337	157	2,494	2,556	2,620	2,685	2,753
4	Goramser Staff yr Heddlu	649	33	682	699	716	734	752
5	Lwfansau	1,334	-89	1,245	1,243	1,242	1,241	1,242
6	Hyfforddiant	1,761	-48	1,713	1,759	1,795	1,831	1,867
7	Gwariant Arall ar Weithwyr	798	7	805	861	879	896	914
8	Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,427	301	3,728	3,989	4,084	4,182	4,283
9	Costau Ynni	1,604	3,738	5,342	4,001	3,401	3,475	3,579
10	Costau Rhedeg Adeiladau	6,744	354	7,098	7,382	7,530	7,680	7,834
11	Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	618	-11	607	649	662	675	689
12	Costau Rhedeg Cerbydau	2,023	388	2,411	2,488	2,551	2,616	2,683
13	Lwfansau Ceir a Theithio	415	18	433	464	473	482	492
14	Uned Awyr	504	-12	492	526	539	553	567
15	Cyfarpar	1,210	33	1,243	1,330	1,356	1,384	1,411
16	Dillad a Gwisgoedd	574	-26	548	543	554	565	576
17	Argraffu a Nwyddau Swyddfa	300	-13	287	307	313	320	326
18	TG a Chyfathrebu	13,733	-315	13,418	13,694	14,079	14,584	15,053
19	Cynhaliaeth	254	5	259	277	283	288	294
20	Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	3,110	-217	2,893	3,094	3,154	3,216	3,278
21	Cydweithio a Phartneriaethau	7,477	665	8,142	8,535	8,748	8,967	9,191
22	Gwasanaethau Fforensig	934	68	1,002	1,072	1,093	1,115	1,138
23	Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf	4,507	442	4,949	4,911	5,147	5,156	5,165
24	Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig at Raid	400	0	400	400	400	400	400
25	Chwyddiant a Chyllid Cyffredinol at Raid	766	-100	666	550	550	550	550
26	Cronfa Diogelwch Cymunedol	3,603	-33	3,570	3,641	3,714	3,788	3,864
	Gwariant Gros	**208,459**	**13,205**	**221,664**	**226,713**	**232,452**	**239,141**	**245,981**

		Cyllideb Flynyddol 2022-23	+Cynnydd - Gostyngiad 2023-24	Cyllideb Flynyddol 2023-24	Cyllideb Flynyddol 2024-25	Cyllideb Flynyddol 2025-26	Cyllideb Flynyddol 2026-27	Cyllideb Flynyddol 2027-28
	Gwariant	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
	Incwm							
27	**Secondiadau**	-7,579	-856	-8,435	-8,644	-8,859	-9,079	-9,305
28	**Llog ar Falansau**	-100	-900	-1,000	-650	-177	-150	-150
29	**Incwm**	-2,669	-408	-3,077	-3,077	-3,077	-3,077	-3,077
30	**Grantiau Penodol**	-17,066	-1,522	-18,588	-18,536	-18,483	-18,430	-18,378
	Cyfanswm Incwm	**-27,414**	**-3,686**	**-31,100**	**-30,907**	**-30,596**	**-30,736**	**-30,910**
31	**Cronfa wrth Gefn PFI**	-241	-1,364	-1,605	-571	-398	-451	-504
32	**Cyfraniad at Gronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys**	1,350	-1,350	0	0	0	0	0
33	**Cyfraniad at y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol**	114	-114	0	0	0	0	125
	Gwariant Net	**182,268**	**6,691**	**188,959**	**195,235**	**201,458**	**207,954**	**214,692**
34	**Cyfanswm Grantiau**	-88,407	-308	-88,715	-90,215	-91,117	-92,028	-92,949
35	**Praesept**	-93,861	-6,383	-100,244	-105,020	-108,913	-112,823	-116,753
	Cyllid	**-182,268**	**-6,691**	**-188,959**	**-195,235**	**-200,030**	**-204,851**	**-209,702**
	Balans Blynyddol	0	0	0	0	1,428	1,675	1,887
	ACHOS SYLFAENOL – Cronnus	**0**		**0**	**0**	**1,428**	**3,103**	**4,990**